



ATODIAD 1

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25	1
1. Cyflwyniad.....	2
2. Sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	2
3. Darpariaeth gwasanaeth.....	4
4. Datblygiadau newydd.....	5
5. Safonau llunio polisi	6
6. Safonau gweithredol.....	6
7. Safonau cadw cofnodion	7
8. Cwynion.....	8
9. Sgiliau a hyfforddiant gweithwyr	9
11. Gwasanaethau derbynfa: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn.....	12
12. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau).....	14
13. Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.....	14

1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr (CBSP) yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2024/25 yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025 ac yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â nodi unrhyw ddatblygiadau newydd/meysydd cynnydd.

2. Sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

2.1 Nid yw'r Cyngor yn cael ei herio o ran unrhyw safonau ar hyn o bryd.

2.2 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn dibynnu ar y rheolwr Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgysylltu i oruchwylio gofynion y comisiynydd ers i swydd Swyddog y Gymraeg ddod yn wag ym mis Hydref 2023. Mae gweithwyr yn parhau i gael diweddariadau a gwybodaeth reolaidd ynghylch y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau megis hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a'r diwylliant. Ym mis Ebrill 2023, gwnaed modiwl hyfforddiant e-ddysgu Cymraeg yn orfodol i'r holl staff ac mae hwn yn cael ei gyfathrebu'n rheolaidd i staff drwy Bridgenders i gynyddu lefelau cyflawni.

2.3 Ers mis Mai 2023, mae prosiect wedi bod yn mynd rhagddo i adolygu'r opsiynau telefoni Cymraeg sydd ar gael i bob cwsmer sy'n galw. Cynhaliwyd gwaith i roi'r opsiynau perthnasol i wasanaethau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg. Rydym yn awyddus i gynnal adolygiad o'r prosiect hwn i sicrhau bod opsiwn Cymraeg bob amser ar gael i alwyr, er bod neges peiriant ateb ddwyieithog gyda'r opsiwn o gael galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg pan ofynnir amdano.

2.4 Mae cefnogaeth i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a amlinellwyd. Mae hyn yn cynnwys lansio, hyrwyddo a marchnata parhaus y fideo taith addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg. Rydym wedi datblygu amserlen Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo adnoddau Cymraeg amrywiol yn rheolaidd. Mae'r tîm cyfathrebu a marchnata yn postio o leiaf ddwywaith yr wythnos ar y cyfryngau cymdeithasol i annog presenoldeb mewn ysgolion addysg cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo dysgu oedolion – DysguCymraeg, hysbysebu gwahanol bartneriaid a'r gweithgareddau y maent yn eu cynnal, h.y.

ioga babanod, hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg a dyddiadau pwysig fel yr Eisteddfod.

- 2.5 Mae diweddariadau sylweddol wedi'u gwneud i'r adran addysg cyfrwng Cymraeg ar wefan CBSP:
<https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/addysg-cyfrwng-cymraeg/> Mae'r tudalennau'n cynnwys rhestr o ysgolion cyfrwng Cymraeg gan gynnwys darpariaethau ychwanegol sydd ar gael yn yr ysgol, cymorth i deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg, cymorth i'r blynyddoedd cynnar a chymorth ar gyfer pontio, a llawer mwy.
- 2.6 Mae'r Rheolwr Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid a mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth, syniadau a phrofiad wrth helpu i nodi blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar draws asiantaethau partner.
- 2.7 Fel rhan o'r rhaglen sefydlu rheolwyr, mae'r rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cyflwyno cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg a'r hyn y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol i reolwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth lawn o rwymedigaethau'r Cyngor a'u cyfrifoldebau rheoli i sicrhau bod staff yn ymwybodol o safonau cydymffurfiaeth y Gymraeg. Mae tudalennau mewnwyd staff ar gael i gael mynediad at unrhyw ganllawiau sy'n ofynnol ynglŷn â chydymffurfiaeth y Gymraeg. Mae'r mewnflwch e-bost Cymraeg pwrpasol (WLS@bridgend.gov.uk) hefyd yno i staff ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ymholiadau Cymraeg neu ganllawiau sydd eu hangen o ran yr iaith.
- 2.8 Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i staff, gan gynnwys cymorth gyda chysiau cymunedol ar hyfforddiant Cymraeg sy'n cael ei gyfathrebu'n rheolaidd drwy negeseuon staff. Mae dogfen gydymffurfio ar gael o hyd, sy'n nodi sut y byddwn yn darparu'r safonau perthnasol o ran darparu gwasanaethau, gweithredu, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisiau. Mae ein gweithdrefn gwyno hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal â hen adroddiadau blynyddol.
- 2.9 Rydym yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn, gan ymchwilio i gwynion a rhoi cymorth i wasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd wedi'u huwchgyfeirio. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithdrefnau archwilio yn fewnol ac yn allanol sy'n cael eu cynnal gan swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn ôl yr angen.

3. Darpariaeth gwasanaeth

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Cyngor ein hymrwymiaidau o ran darparu gwasanaethau trwy:

- 3.1 Sicrhau bod unrhyw ymatebion i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu rhoi lle mae angen ateb. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi fersiynau dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân o ohebiaeth, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn dibynnu ar y dewis iaith a ddatganwyd. Mae gofyn i bob adran roi cyfarchiad dwyieithog dros y ffôn a, lle bo'n berthnasol, parhau i sgwrsio yn Gymraeg nes iddynt orffen neu drosglwyddo galwyr i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os oes un ar gael), neu i aelod o staff sy'n siarad Saesneg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael a bod y cwsmer yn fodlon ar hyn.

Mae un prif rif ffôn (01656 643643) ar gael i'r rhai sydd am siarad â rhywun yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad ffôn, caiff galwyr eu hysbysu, yn Gymraeg, pryd bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall y rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg hefyd adael neges yn Gymraeg ac rydym yn nodi ar ddeunyddiau sy'n hysbysebu rhif ffôn CBSP bod galwadau yn cael eu croesawu yn Gymraeg a Saesneg.

- 3.2 Rydym yn parhau i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg ar unrhyw ddeunyddiau hysbysebu. Pan fyddwn yn gwahodd cyfranogwyr i gyfarfod, nodir bod staff yn cynnig yr opsiwn Cymraeg yn y cyfarfod ac yn rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso hyn. Mae'r broses hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu wrth anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus CBSP (lle bo'n berthnasol) a'r cyfarfodydd/digwyddiadau hynny a ariennir gan CBSP (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n dod i gyfarfodydd a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal, hysbysir cyfranogwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg (os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu sydd i'w harddangos yn y cyfarfodydd/digwyddiadau yn ddwyieithog hefyd.
- 3.3 Rydym yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu, a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg) yn

ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol i'r cyhoedd megis polisïau a rheolau yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Mae'r dogfennau hyn yn ceisio trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Nodir hyn yn y fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (lle mae hyn yn ofynnol). Hefyd, mae unrhyw ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu ar gael fel fersiynau Cymraeg a Saesneg. Os oes fersiynau ar wahân, byddwn yn nodi ar y fersiwn Saesneg o'r ffurflen bod ffurflen Gymraeg ar gael.

- 3.4 Mae CBSP yn ymateb yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol lle mae angen ateb. Hefyd, rydym yn newid arwyddion strydoedd, lleoedd a chyfeiriadau (gan gynnwys arwyddion dros dro lle bo'n berthnasol) yn sgil difrod neu draul arferol, gydag arwyddion yn ddwyieithog a'r testun Cymraeg yn gyntaf. Yn ogystal, rydym yn llunio hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gan roi'r testun Cymraeg yn gyntaf bob amser.
- 3.5 Mae gennym staff sy'n siarad Cymraeg yn y dderbynfa sy'n gwisgo laniardiau i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg, ac mae cyhoeddiadau sain dwyieithog yn cael eu gwneud gan roi'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf bob amser. Rydym yn parhau i lunio ein hagendâu a'n cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a phwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41) ac mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.
- 3.6 Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a nodweddion dwyieithog ar y wefan yn ôl yr angen (safon 52 a 56). Rydym yn postio'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ymateb yn Gymraeg i ymholiadau Cymraeg a dderbynnir, lle mae angen ymateb yn safonol.

4. Datblygiadau newydd

- 4.1 Rydym wedi parhau i wella a datblygu ein platfform ar-lein 'Fy Nghyfrif', gan alluogi tanysgrifwyr i roi gwybod am faterion fel rheoli plâu a goleuadau stryd drwy'r platfform trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith ar y gweill i weithredu mewnwyd ddwyieithog i staff.
- 4.2 Trwy newid hyfforddiant e-ddysgu Cymraeg i fodiwl gorfodol i staff, mae hyn yn caniatáu i'r adran Dysgu a Datblygu gael mynediad at ffigurau cyflawni ac yn rhoi'r gallu iddynt anfon negeseuon atgoffa at staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant.
- 4.3 Mae rhwydwaith Staff "Iaith Gwaith" wedi'i sefydlu sy'n fforwm ar gyfer ymarfer yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i staff sydd am wella eu sgiliau Cymraeg a chysylltu â chydweithwyr. Mae unigolion o bob lefel

rhuglder yn cael eu croesawu a'u hannog i gymryd rhan; ar hyn o bryd, mae gennym 16 aelod o'r fforwm sy'n cwrdd bob mis am awr.

5. Safonau llunio polisi

- 5.1 Mae'n ofynnol i staff ddefnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth adolygu neu lunio polisïau. Mae'r broses hon yn sicrhau bod asesiad risg trylwyr yn cael ei gynnal ac yn gofyn am gasglu tystiolaeth ac ymchwilio i sicrhau nad yw'r Gymraeg dan anfantais. Mae hyn yn ystyriaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio y mae'r Cyngor yn ei gynnal lle mae barn ar a allai penderfyniad polisi (os yw'n berthnasol) effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.
- 5.2 Mae Protocol Dyfarnu Grantiau wedi'i gymeradwyo, sy'n sicrhau bod penderfyniadau ar ddyfarnu grantiau yn nodi'r effeithiau ar y Gymraeg, ac yna'n ystyried sut y gellir lleihau effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol. Mae hyn wedi'i rannu â swyddogion sy'n gweinyddu grantiau a'i gyhoeddi ar y fewnrwyd fel canllaw i staff CBSP. Mae'r Protocol yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, y mae'n rhaid eu hystyried.

6. Safonau gweithredol

- 6.1 Ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd yr adran Archwilio Mewnol arolygiad ar ein cydymffurfiaeth o ran y Gymraeg yn erbyn y safonau gweithredol. Yn ystod yr archwiliad, nodwyd nifer o gryfderau a meysydd ymarfer da fel a ganlyn:
- Mae canllawiau ar gael i bob aelod o staff ar Safonau'r Gymraeg drwy Bridgenders, sy'n gylchgrawn staff a gynhyrchir bob chwarter.
 - Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi strategaeth 5 mlynedd i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn ogystal ag Adroddiad Blyneddol ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau.
 - Mae canllawiau cam wrth gam ar gael i aelodau staff drwy Bridgenders sy'n nodi sut y mae'n rhaid dilyn y Fframwaith Cyfieithu Cymraeg.
 - Cedwir cofnod o gwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau.

- Roedd yr holl bolisiâu mewnol a samplwyd gan yr Archwilydd, yr oedd yn ofynnol eu cyfieithu yn unol â Safonau'r Gymraeg 105-111, ar gael yn Gymraeg.
- 6.2 Mae Adnoddau Dynol yn asesu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr ac anogir staff i ddiweddarau eu datblygiad personol a'u sgiliau iaith yn barhaus. Mae hyfforddiant ar gael fel 'cwrdd a chyfarch' a'r Cwrs Mynediad sydd ar gael i'r holl staff. Mae nifer o becynnau e-ddysgu ar gael i staff o ymwybyddiaeth a diwylliant y Gymraeg i ganllawiau ar gyfer Safonau'r Gymraeg. Mae dewis iaith gweithwyr bob amser yn cael ei gofnodi er mwyn darparu gohebiaeth am eu cyflogaeth, a ffurflenni amrywiol sy'n ymwneud â chyflogaeth, yn Gymraeg yn ôl yr angen.
- 6.4 Mae gan holl adeiladau'r Cyngor arwyddion dwyieithog yn eu lle gan gynnwys yn ein prif dderbynfeydd, a gall cwsmeriaid ddisgwyl cael eu cyfarch yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth. Mae croeso i gwsmeriaid ac ymwelwyr ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gall yr holl staff rheng flaen gyfarch y cyhoedd yn Gymraeg.
- 6.5 Rydym yn cyflwyno adroddiad ar y strategaeth pum mlynedd ym Mhwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn flynyddol. Gweithredwyd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ym mis Medi 2022. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r adran Addysg ac aelodau eraill i symud ymlaen gyda'r amcanion a osodwyd yn y cynllun 5 mlynedd. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran datblygu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal plant a chydweithwyr yn y trydydd sector ac mae'n cwrdd yn rheolaidd i sicrhau cyflawniad effeithiol dros y tair blynedd nesaf.

7. Safonau cadw cofnodion

- 7.1 Cofnodir pob cwyn a dderbynnir am ein cydymffurfiaeth fel rhan o'n system cwynion corfforaethol. Mae'r swyddog Cymraeg hefyd yn cadw cofnodion o unrhyw ymholiadau neu ymchwiliadau cychwynnol a dderbynnir gan yr Awdurdod Lleol.
- 7.2 Mae Adnoddau Dynol yn monitro a chofnodi nifer y gweithwyr sy'n mynd ar gysiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – gweler Adran 9 am fwy o fanylion. Yn ogystal, maent yn cadw cofnod o sgiliau Cymraeg gweithwyr ac asesiadau o swyddi newydd a gwag – gweler Adran 10 am fwy o fanylion.

- 7.3 Cedwir cofnod o nifer y rhyngweithiadau Cymraeg sy'n digwydd dros nifer o sianeli (ffôn, wyneb yn wyneb a digidol) o fewn y ganolfan gyswllt gwasanaethau cwsmeriaid.

8. Cwynion

- 8.1 Derbyniodd y comisiynydd gŵyn ar 12/04/2024 gan aelod o'r cyhoedd am arwydd yn y maes parcio ger toiledau John Street ym Mhorthcawl sydd â chyfieithiad Cymraeg anghywir – 'wedi lallu' yn lle 'wedi talu'. Mae'r achwynydd eisoes wedi cyflwyno cwyn am hyn i'r Cyngor ar 23/03/2024 i complaints@bridgend.gov.uk ac roedd yr arwydd wedi cael ei gywiro felly nid oedd angen unrhyw gamau pellach.
- 8.2 Derbyniodd y comisiynydd gŵyn arall gan aelod o'r cyhoedd ar 13 Mehefin am y ffaith nad oedd wedi derbyn ymateb i e-bost a ysgrifennodd yn Gymraeg i adran etholiadau'r Cyngor nos Sul 09/06/2024 am allu pleidleisio drwy ddirprwy, ond derbyniodd ymateb yn Saesneg am 8.45am ar 13/06/2024. Anfonwyd ymateb gan y tîm cyfreithiol yn cynghori mai cyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru a'r Swyddog Canlyniadau yw'r trefniadau etholiadol. Nid y Cyngor yw'r corff cyfrifol, mae'r swyddogaethau hynny yn gyfrifoldeb i'r Swyddog Cofrestru a'r Swyddog Canlyniadau yn y drefn honno y mae eu rolau yn annibynnol ar y Cyngor.
- 8.3 Ar 7 Rhagfyr, anfonwyd cwyn yn uniongyrchol i'r blwch post cyfathrebu, mewn perthynas â thudalen we Gymraeg y Cyngor heb ei diweddarau i adlewyrchu'r ffaith bod canolfannau ailgylchu cymunedol wedi'u cau ar frys y penwythnos hwnnw. Ymatebodd y tîm i gynghori bod hon yn amgylchiad eithriadol/sefyllfa o argyfwng ac nad oedd unrhyw wasanaethau cyfieithu ar gael gan ei fod yn ystod y penwythnos. Nid oedd angen camau gweithredu pellach y tro hwn.
- 8.4 Derbyniodd y comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 23 Ionawr, i roi gwybod am wallau ar y fersiwn Gymraeg o wefan y Cyngor. Roedd y system 'arlwyo heb arian parod' yn cynnwys nifer o wallau yn y Gymraeg. Mae'r system dan sylw yn cael ei darparu gan drydydd parti, felly, cymerodd fwy o amser i ddatrys hyn, ond cafodd Swyddfa'r Comisiynydd wybod a rhoddwyd amser ychwanegol i gywiro'r gwallau.

9. Sgiliau a hyfforddiant gweithwyr

Sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2025:

CBSP ac eithrio Ysgolion				
Siarad Cymraeg				
Disgrifiad	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%
Cyfanswm Niferoedd	2367	747	3114	
0 – Dim sgiliau	1168	383	1551	49.81%
A1 – Lefel Mynediad	548	178	726	23.31%
A2 – Lefel Sylfaen	13	3	16	0.51%
B1 – Lefel Ganolradd	50	16	66	2.12%
B2 – Lefel Uwch	3	1	4	0.13%
C1 – Lefel Rhuglder	85	22	107	3.44%
C2 – Cwbl rugl	10	4	14	0.45%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	4	8	0.26%
Heb ddatgan	486	136	622	19.97%

Siarad Cymraeg	
Benyw	Gwryw
2312	521
352	82
397	80
13	2
88	13
2	1
131	18
5	3
10	3
1314	319

CBSP ac eithrio Ysgolion				
Darllen Cymraeg				
Disgrifiad	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%
Cyfanswm Niferoedd	2367	747	3114	
0 – Dim sgiliau	1169	389	1558	50.03%
A1 – Lefel Mynediad	529	167	696	22.35%
A2 – Lefel Sylfaen	16	2	18	0.58%
B1 – Lefel Ganolradd	59	24	83	2.67%
B2 – Lefel Uwch	2	2	4	0.13%

Darllen Cymraeg	
Benyw	Gwryw
2312	521
352	82
394	77
12	4
94	12
3	1

C1 – Lefel Rhuglder	89	17	106	3.40%	129	19
C2 – Cwbl rugl	13	4	17	0.55%	5	3
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	4	8	0.26%	11	3
Heb ddatgan	486	138	624	20.04%	1312	320

CBSP ac eithrio Ysgolion						
Ysgrifennu yn Gymraeg					Ysgrifennu	
Disgrifiad	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%	Benyw	Gwryw
Cyfanswm Niferoedd	2367	747	3114		2312	521
0 – Dim sgiliau	1295	449	1744	56.01%	400	90
A1 – Lefel Mynediad	426	112	538	17.28%	360	70
A2 – Lefel Sylfaen	14	2	16	0.51%	15	3
B1 – Lefel Ganolradd	46	22	68	2.18%	81	13
B2 – Lefel Uwch	2	2	4	0.13%	2	1
C1 – Lefel Rhuglder	86	14	100	3.21%	125	17
C2 – Cwbl rugl	8	4	12	0.39%	5	3
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	4	8	0.26%	10	3
Heb ddatgan	486	138	624	20.04%	1314	321

CBSP ac eithrio Ysgolion						
Gwranddo ar y Gymraeg					Gwranddo	
Disgrifiad	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%	Benyw	Gwryw
Cyfanswm Niferoedd	2367	747	3114		2312	521
0 – Dim sgiliau	304	98	402	12.91%	47	13
A1 – Lefel Mynediad	213	64	277	8.90%	67	16
A2 – Lefel Sylfaen	21	5	26	0.83%	16	6

B1 – Lefel Ganolradd	12	4	16	0.51%	9	4
B2 – Lefel Uwch	3	1	4	0.13%	5	1
C1 – Lefel Rhuglder	12	4	16	0.51%	1	0
C2 – Cwbl rugl	20	4	24	0.77%	11	3
Mae'n well gennyf beidio â dweud	6	4	10	0.32%	11	3
Heb ddatgan	1776	563	2339	75.11%	2145	475

Sylwer:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys gweithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys o dan y categori 'CBSP ac eithrio ysgolion'.
- Mae'r categori 'Heb ddatgan' yn cynnwys gweithwyr nad ydynt wedi rhoi manylion am eu sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodir yn seiliedig ar hunanasesiad yr unigolyn.
- Mae gan 194 o weithwyr swydd ysgol a swydd 'Pob gwasanaeth arall' ac maent yn cael eu cyfrif unwaith trwy eu swydd sydd â'r oriau contract uchaf ar draws CBSP.

Nifer y gweithwyr a aeth ar gyrsiau hyfforddiant Cymraeg rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

- Aeth 8 o weithwyr ar hyfforddiant 'Cwrs Mynediad' yn 2024/25, gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymgymryd â blwyddyn 1 a 2, yn seiliedig ar bedair awr yr wythnos dros 30 wythnos.
- Mae 11 o weithwyr wedi cael cymorth i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys Sylfaen, Sylfaen Rhan 1 a Sylfaen Rhan 2, Sylfaen Rhan 3.
- Mae 24 o weithwyr wedi mynychu hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch Cymraeg' yn 2024-25, gan eu galluogi i ateb y ffôn a chyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg.
- Ni chafwyd unrhyw geisiadau am ddeunyddiau hyfforddi wyneb yn wyneb i fod ar gael yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Mae 1015 o bobl wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Saesneg – 1014, Cymraeg – 1) ac 20 o bobl wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu ar Safonau'r Gymraeg (Saesneg – 20 Cymraeg – 0).

- Cwblhaodd 585 o weithwyr newydd y modiwl e-ddysgu sefydlu corfforaethol, a chwblhaodd 100 o ddechreuwr newydd y modiwl trwy lyfr gwaith. Cyfanswm a oedd wedi'i gwblhau – 685 Mae sefydlu corfforaethol yn cynnwys adran ar gyflwyniad i'r Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a dolenni i'r Modiwlau E-Ddysgu Cymraeg a Chyfleoedd Hyfforddi'r Gymraeg.
- Cwblhaodd 22 o reolwyr newydd y modiwl e-ddysgu sefydlu rheolwyr. Mae sefydlu rheolwyr yn cynnwys cyflwyniad i'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg a dolenni i'r Modiwl E-Ddysgu ar Safonau'r Gymraeg a'r Modiwl E-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Swyddi newydd a gwag

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod 2024/25 lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn:

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categorio fel hyn	Canran y swyddi wedi'u categorio fel hyn
Hanfodol	15	1.60%
Dymunol	464	49.57
Angen dysgu Cymraeg	0	0%
Nid oes angen sgiliau Cymraeg	457	48.82%

11. Gwasanaethau derbynfa: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

Rhyngweithiadau wyneb yn wyneb yn Gymraeg	0
Cyfanswm ymweliadau	11,186
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau a gafwyd	0.00%

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	76,582
Nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i'r oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	3,100
Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)	79,682
Nifer y galwadau yn Gymraeg	98
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.12%

Dros y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd ein galw i fod yn isel am ein sianel wyneb yn wyneb, ar draws pob iaith.

Gostyngodd ceisiadau telefoni o 79,146 i 76,582 yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg), tra bod nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i'r oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg) wedi cynyddu o 1,361 i 3,100.

Cynyddodd ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y cysylltiadau hefyd o 0.07% i 0.08%

Mae galw cwsmeriaid am y sianel ar-lein yn parhau i gynyddu, sydd yn ei dro wedi effeithio ar alw cwsmeriaid am ein sianeli ffôn ac wyneb yn wyneb.

Mae yna nifer isel o geisiadau i gysylltu â ni yn Gymraeg o hyd. Mae gennym hefyd nifer isel o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac er ein bod yn gwneud popeth y gallwn pan fyddwn yn gallu recriwtio, mae recriwtio siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod yn anodd iawn.

Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n system Teleffoni i sicrhau ein bod yn cyfeirio galwadau i'r adran gywir, p'un a yw'r Gymraeg neu'r Saesneg wedi'i dewis. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda gwasanaethau rheng flaen i adolygu eu sianeli mewnol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

12. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau)

Cynhaliwyd tri AEG llawn i ystyried effaith y polisi/strategaeth ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol a thrin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ac, o ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiadau i'r polisiâu/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

13. Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae'r Cyngor yn falch o hyrwyddo, dathlu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, y diwylliant ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd yn lleol i godi proffil yr iaith. Isod, mae rhai o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau yr ydym wedi'u hyrwyddo rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

- Dydd Santes Dwynwen
- Dydd Miwsig Cymru
- Dydd Gŵyl Dewi
- Eisteddfod yr Urdd
- Rhaglen Cymraeg i Blant
- Yr Urdd
- Gŵyl Ogi Ogi
- Diwrnod Shwmae Sumae
- Gŵyl Ogi Ogi Ogwr 2024
- Gwobrau'r Siarter Iaith